



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 3 Tachwedd 2009
Tabled on 3 November 2009

Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuloedd (Cymru)
Proposed Children and Families (Wales) Measure

Jenny Randerson

39

Section 2, page 8, after line 24, insert -

- '() Regulations made under subsection (5) may also provide for factors ("performance indicators") by reference to which a Welsh authority's progress in achieving the objectives chosen by the authority under subsection (1)(a) or specified in regulations referred to in subsection (1)(b) can be measured.
- () Regulations may specify different performance indicators -
 - () for different objectives;
 - () for different authorities or descriptions of authorities;
 - () to apply at different times.'

Adran 2, tudalen 8, ar ôl llinell 25, ychwanegwch -

- '() Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (5) hefyd ddarparu ar gyfer ffactorau ("dangosyddion perfformiad") y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd awdurdod Cymreig wrth gyflawni'r amcanion a ddewisir gan yr awdurdod o dan is-adran (1)(a) neu a bennir mewn rheoliadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b).
- () Caiff rheoliadau bennu dangosyddion perfformiad gwahanol -
 - () ar gyfer gwahanol amcanion;
 - () ar gyfer gwahanol awdurdodau neu wahanol ddisgrifiadau o awdurdodau;
 - () i fod yn gymwys ar adegau gwahanol.'

Jenny Randerson

40

Section 3, page 8, after line 37, insert-

- '() relevant voluntary organisations, and'.

Adran 3, tudalen 8, ar ôl llinell 38, ychwanegwch-

- '() sefydliadau gwirfoddol perthnasol, a'.

Jenny Randerson

41

Section 3, page 9, after line 7, insert -

- '() The Welsh Ministers must each year -
 - () publish an interim report containing an assessment of the extent to which -
 - () the objectives contained in their strategy for contributing to the eradication of child poverty have been achieved, and
 - () if an objective has not been achieved, progress that has been made towards achieving the objective;
 - () place the report before an appropriate committee established under section 28 of the 2006 Act.'

Adran 3, tudalen 9, ar ôl llinell 9, ychwanegwch -

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn -
 - () cyhoeddi adroddiad dros dro sy'n cynnwys asesiad -
 - () i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion sydd yn eu strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant, a
 - () os na chyflawnwyd un o'r amcanion, i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r amcan;
 - () gosod yr adroddiad gerbron pwyllgor priodol a sefydlwyd o dan adran 28 o Ddeddf 2006.'

Jenny Randerson

42

Section 5A, page 11, after line 21, insert –

‘() a Further Education Institution.’.

Adran 5A, tudalen 11, ar ôl llinell 22, ychwanegwch –

‘() Sefydliad Addysg Bellach.’.

Jenny Randerson

43

Section 9A, page 13, after line 33, insert –

‘() Play opportunities secured in accordance with subsection (3) shall be appropriate for the age of the children wishing to access them.’.

Adran 9A, tudalen 13, ar ôl llinell 33, ychwanegwch –

‘() Rhaid i gyfleoedd chwarae a sicrheir yn unol ag is-adran (3) fod yn briodol ar gyfer oedran y plant sydd am fanteisio arnynt.’.

Jenny Randerson

44

Section 9A, page 14, line 10, leave out ‘and’.

Adran 9A, tudalen 14, llinell 9, gadewch allan ‘ac’.

Jenny Randerson

45

Section 9A, page 14, line 10, after ‘quality’, insert ‘and accessibility’.

Adran 9A, tudalen 14, llinell 10, ar ôl ‘ansawdd’, ychwanegwch ‘a hygyrchedd’.

Jenny Randerson

46

Section 50, page 38, after line 14, insert –

‘() Before making any regulations under subsection (9) the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.’.

Adran 50, tudalen 38, ar ôl llinell 15, ychwanegwch –

‘() Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan is-adran (9) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyfryw bersonau ag y maent o’r farn eu bod yn briodol.’.

Jenny Randerson

47

Section 51, page 39, after line 23, insert –

‘() Before making any regulations under subsection (2) the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.’.

Adran 51, tudalen 39, ar ôl llinell 26, ychwanegwch –

‘() Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyfryw bersonau ag y maent o’r farn eu bod yn briodol.’.

Jenny Randerson

48

Section 54, page 40, after line 34, insert -

- '() to ensure that the integrated family support teams to which they relate undertake their functions in such a way that due regard is had to the views of relevant voluntary organisations.'

Adran 54, tudalen 40, ar ôl llinell 37, ychwanegwch -

- '() sicrhau bod y timau integredig cymorth i deuluoedd y meint yn ymwneud â hwy yn ymgymryd â'u swyddogaethau yn y fath fodd fel bod sylw dyladwy yn cael ei roi i safbwyntiau sefydliadau gwirfoddol perthnasol.'

Jenny Randerson

49

Section 54, page 40, after line 36, insert -

- '() Prior to making any regulations under subsection (2) the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.'

Adran 54, tudalen 40, ar ôl llinell 39, ychwanegwch -

- '() Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y maent o'r farn eu bod yn briodol.'

Jenny Randerson

50

Section 55, page 41, after line 12, insert -

- '() Before making any regulations under subsection () the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.'

Adran 55, tudalen 41, ar ôl llinell 12, ychwanegwch -

- '() Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan is-adran () rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y maent o'r farn eu bod yn briodol.'

Jenny Randerson

51

Section 59, page 42, line 5, leave out 'matters', and insert 'duties'.

Adran 59, tudalen 42, llinell 4, gadewch allan 'materion', a rhwch yn ei le 'dyletswyddau'.

Jenny Randerson

52

Section 59, page 42, after line 11, insert -

- () providing annually to the authority a report containing a statement of the progress made in relation to paragraphs (a) to (c).
- () The report referred to in paragraph [] may contain a statement of actions and timescales for the completion of any actions required to achieve progress in relation to the matters referred to in subsection [] (a) to (c).
- () It shall be the duty of the local authority to provide the officer designated under subsection [] with such staff, accommodation and other resources as are in the officer's opinion, sufficient to allow the duties under subsection [] (a) to (c) to be performed.
- () The officer designated under subsection [] must have significant and suitable experience in social work and hold a suitable recognised qualification.
- () The local authority must take account of the report referred to in subsection [] and must ensure that any action required by the report is undertaken in compliance with any specified timescale.'

Adran 59, tudalen 42, ar ôl llinell 11, ychwanegwch -

- () darparu adroddiad i'r awdurdod yn flynyddol yn cynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â pharagraffau (a) i (c).
- () Caiff yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff [] gynnwys datganiad ar y camau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer cwblhau unrhyw gamau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cynnydd mewn perthynas â'r materion y cyfeirir atynt yn is-adran [] (a) i (c).
- () Dyletswydd yr awdurdod lleol yw darparu i'r swyddog a bennir o dan is-adran [] y staff, yr adeiladau a'r adnoddau eraill sy'n ddigonol, ym marn y swyddog, i gyflawni'r dyletswyddau o dan is-adran [] (a) i (c).
- () Rhaid bod gan y swyddog a bennir o dan is-adran [] brofiad sylweddol ac addas ym maes gwaith cymdeithasol a rhaid iddo feddu ar gymhwyster addas, cydnabyddedig.
- () Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr adroddiad y cyfeirir ato yn is-adran [] a rhaid iddo sicrhau y cyflawnir unrhyw gam gweithredu sy'n ofynnol yn yr adroddiad yn unol ag unrhyw amserlen benodol.'

Jenny Randerson

53

Section 63, page 44, after line 20, insert -

''the 2006 Act'' means the Government of Wales Act 2006 (c.32)'

Adran 63, tudalen 44, ar ôl llinell 30, ychwanegwch -

'ystyr "Deddf 2006" ("the 2006 Act") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).'

Jenny Randerson

54

Section 63, page 45, after line 1, insert –

"relevant voluntary organisation" is to be interpreted in accordance with section 74(2) of the 2006 Act;’.

Adran 63, tudalen 45, ar ôl llinell 3, ychwanegwch –

‘mae "sefydliad gwirfoddol perthnasol" (“relevant voluntary organisation”) i’w ddehongli yn unol ag adran 74(2) o Ddeddf 2006.’.

Mark Isherwood

55

To insert a new Section –

() Interpretation

For the purposes of this Part a child is taken to be living in poverty if the child lives in a household in the relevant income group referred to in section 1(3) or in a household in the relevant income group referred to in section 1(4).’.

I ychwanegu Adran newydd –

() Dehongli

At ddibenion y Rhan hon, cymerir bod plentyn yn byw mewn tlodi os yw’r plentyn yn byw ar aelwyd yn y grŵp incwm perthnasol y cyfeirir ato yn adran 1(3) neu ar aelwyd yn y grŵp incwm perthnasol y cyfeirir ato yn adran 1(4).’.

Mark Isherwood

56

Section 53, page 40, after line 23, insert –

‘() Before appointing members to a board under subsection (5), the local authority must consult such persons as it considers appropriate.’.

Adran 53, tudalen 40, ar ôl llinell 25, ychwanegwch –

‘() Cyn penodi aelodau i fwrdd o dan is-adran (5), rhaid i’r awdurdod lleol ymgynghori â’r cyfryw bersonau ag y mae o’r farn eu bod yn briodol.’.

Mark Isherwood

57

Section 52, page 39, after line 32, insert –

‘() Before appointing persons to an integrated family support team under subsection (2), the local authority must consult such persons as it considers appropriate.’.

Adran 52, tudalen 39, ar ôl llinell 35, ychwanegwch –

‘() Cyn penodi personau i dîm integredig cymorth i deuluoedd o dan is-adran (2), rhaid i’r awdurdod lleol ymgynghori â’r cyfryw bersonau ag y mae o’r farn eu bod yn briodol.’.

Mark Isherwood

58

Section 9B, page 14, after line 19, insert –

‘() In this section, “participation by children” means involvement of children in decisions, planning and evaluation of actions which might affect them.’.

Adran 9B, tudalen 14, ar ôl llinell 19, ychwanegwch –

‘() Yn yr adran hon, ystyr “plant i gymryd rhan” yw cynnwys plant wrth wneud penderfyniadau, wrth gynllunio ac wrth werthuso camau pan all y pethau hynny effeithio arnynt.’.

Mark Isherwood

59

Section 9A, page 14, line 8, leave out ‘includes any recreational activity’, and insert ‘encompasses (but is not limited to) children’s behaviour which is freely chosen, personally directed and intrinsically motivated and performed for no external goal or reward’.

Adran 9A, tudalen 14, llinell 8, gadewch allan ‘ unrhyw weithgaredd hamdden’ a rhwch yn ei le ‘(ond nid yw wedi’i gyfyngu i) ymddygiad gan blant a hwnnw’n gwbl wirfoddol, yn dilyn cyfeiriad a ddewisir yn bersonol, yn bod er ei fwyn ei hun ac yn cael ei gyflawni heb unrhyw nod na gwobr allanol’.

Mark Isherwood

60

Section 1, page 7, after line 1, insert –

‘() to ensure that no child grows up in a household where 10% or more of the household income is spent on fuel to keep their home warm;’.

Adran 1, tudalen 6, ar ôl llinell 1, ychwanegwch –

‘() sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei fagu ar aelwyd lle y caiff 10% neu fwy o incwm yr aelwyd ei wario ar danwydd i gadw ei gartref yn gynnes;’.

Mark Isherwood

61

To insert a new Section –

‘() Local authority duties in respect of discontinuing play opportunities for children

- (1) Where a local authority propose to discontinue any play opportunity in its area for children it must first publish information identifying –
 - (a) the nature of the proposed discontinuance; and
 - (b) the impact of the discontinuance on the sufficiency of play opportunities identified in accordance with the assessment made under section 9A.
- (2) In performing its duties under this section, a local authority must consider any objections to the proposed discontinuance made to it.’.

I ychwanegu Adran newydd –

(1) Dyletswyddau awdurdod lleol o ran dod â chyfleoedd chwarae i blant i ben

- (1) Os bydd awdurdod lleol yn cynnig dod ag unrhyw gyfleoedd chwarae i blant i ben yn ei ardal, rhaid iddo yn gyntaf gyhoeddi gwybodaeth yn nodi –
 - (a) natur y bwriad i ddod â'r ddarpariaeth i ben; a
 - (b) effaith dod â'r ddarpariaeth i ben ar ba mor ddigonol yw'r cyfleoedd chwarae a nodwyd yn unol â'r asesiad a wnaed o dan adran 9A.
- (2) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol ystyried unrhyw wrthwynebiad a wneir iddo ynghylch y bwriad i ddod â'r ddarpariaeth i ben.'

Mark Isherwood

62

Section 66, page 45, after line 23, insert –

- '() A statutory instrument containing the first set of regulations made under section 9A and subsequent regulations made under section 9A(2)(a) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.'

Adran 66, tudalen 45, ar ôl llinell 27, ychwanegwch –

- '() Ni cheir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys y set cyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 9A a rheoliadau dilynol a wneir o dan adran 9A(2)(a) oni chafodd drafft o'r offeryn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.'

Mark Isherwood

63

Section 40, page 33, after line 35, insert –

- '() provision for any person who has been issued with a penalty notice to appeal against the decision;
() provision as to the procedure to be followed in respect of an appeal;'

Adran 40, tudalen 33, ar ôl llinell 36, ychwanegwch –

- '() darparu i unrhyw berson sydd wedi cael hysbysiad o gosb i apelio yn erbyn y penderfyniad;
() darparu o ran y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth apelio;'

Mark Isherwood

64

Section 55, page 41, after line 3, insert –

- '() referral of cases to integrated family support teams;'

Adran 55, tudalen 41, ar ôl llinell 3, ychwanegwch –

- '() atgyfeirio achosion i dimau integredig cymorth i deuluoedd;'

Mark Isherwood

65

Section 26, page 23, after line 18, insert –

- ‘() conditions for re-registration, including (among other things) the undertaking of appropriate training or re-training.’

Adran 26, tudalen 23, ar ôl llinell 18, ychwanegwch–

- ‘() amodau ar gyfer ailgofrestru, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) cael hyfforddiant neu ailhyfforddiant priodol.’

Mark Isherwood

66

Section 50, page 37, after line 18, insert –

- ‘() Before assigning family support functions to an integrated family support team in accordance with subsection (1), the local authority must consult with such persons as they consider appropriate including (among others) representatives of relevant voluntary organisations.’

Adran 50, tudalen 37, ar ôl llinell 20, ychwanegwch –

- ‘() Cyn pennu swyddogaethau cymorth i deuluoedd i dîm integredig cymorth i deuluoedd yn unol ag is-adran (1), rhaid i’r awdurdod lleol ymgynghori â’r cyfryw bersonau ag y mae o’r farn eu bod yn briodol gan gynnwys (ymhlith eraill) gynrychiolwyr y cyfryw sefydliadau gwirfoddol perthnasol ag y mae’r awdurdod lleol o’r farn eu bod yn briodol.’

Mark Isherwood

67

Section 3, page 8, after line 34, insert –

- ‘() In preparing their strategies Welsh authorities are to ensure that the interests of the child are first and paramount.’

Adran 3, tudalen 8, ar ôl llinell 35, ychwanegwch –

- ‘() Wrth baratoi eu strategaethau, mae awdurdodau Cymreig i sicrhau mai buddiannau’r plentyn yw’r peth pennaf a phwysicaf.’

Mark Isherwood

68

Section 1, page 7, line 18, leave out subsection (6).

Adran 1, tudalen 7, llinell 19, gadewch allan is-adran (6).

Mark Isherwood

69

Section 1, page 7, line 16, leave out ‘Regulations may’, and insert ‘The Welsh Ministers must, by regulations,’

Adran 1, tudalen 7, llinell 17, gadewch allan ‘Caiff rheoliadau’ ac yn ei le rhowch ‘Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau,’